# Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015

**2015 dccc 3**

*Mesur perfformiad tuag at gyflawni diben y Ddeddf hon*

## 11 Dangosyddion cenedlaethol

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) cyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol") y gellir eu cymhwyso at y diben o fesur cynnydd tuag at gyflawni diben y Ddeddf hon;

(b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

(2) O ran dangosydd cenedlaethol—

(a) rhaid iddo gael ei fynegi fel gwerth y gellir ei fesur neu nodwedd y gellir ei mesur yn feintiol neu'n ansoddol yn erbyn canlyniad penodol;

(b) caiff fod yn fesuradwy dros ba gyfnod bynnag sy'n briodol ym marn Gweinidogion Cymru;

(c) caiff fod yn fesuradwy mewn perthynas â Chymru neu unrhyw ran o Gymru.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru adolygu a diwygio'r dangosyddion perfformiad ar unrhyw adeg.

(4) Pan fydd Gweinidogion Cymru yn diwygio'r dangosyddion perfformiad o dan is-adran (3), rhaid iddynt, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol—

(a) cyhoeddi'r dangosyddion fel y'u diwygiwyd, a

(b) gosod copi ohonynt gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

(5) Cyn cyhoeddi dangosyddion cenedlaethol (gan gynnwys dangosyddion a ddiwygir o dan is-adran (3)), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw bersonau y maent yn eu hystyried yn briodol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 11 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 25(3)**

**I2** A. 11 mewn grym ar 5.10.2015 gan O.S. 2015/1680, **ergl. 2(e)**

## 12 Adroddiadau cynnydd blynyddol gan Weinidogion Cymru

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru, mewn cysylltiad â phob blwyddyn ariannol, gyhoeddi adroddiad ar—

(a) y cynnydd a wnaed ganddynt o ran cyflawni'r amcanion yn y strategaeth genedlaethol;

(b) y cynnydd sydd wedi ei wneud tuag at gyflawni diben y Ddeddf hon yng Nghymru gan gyfeirio at y dangosyddion cenedlaethol a gyhoeddir o dan adran 11.

(2) Pan fo Gweinidogion Cymru wedi diwygio'r strategaeth genedlaethol yn ystod y cyfnod y mae'r adroddiad yn ymwneud ag ef, rhaid i'r adroddiad gynnwys esboniad o'r rhesymau dros y diwygiad hwnnw.

(3) Rhaid i unrhyw adroddiad o dan yr adran hon a gyhoeddir yn ystod y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau gyda dyddiad etholiad cyffredinol gynnwys rhagfynegiadau o dueddiadau tebygol yn y dyfodol ac unrhyw ddata a gwybodaeth ddadansoddol arall sy'n ymwneud â diben y Ddeddf hon y mae Gweinidogion Cymru yn eu hystyried yn briodol.

(4) Yn is-adran (3), mae'r cyfeiriad at ddyddiad etholiad cyffredinol yn gyfeiriad at y dyddiad y caiff etholiad cyffredinol arferol ei gynnal o dan adran 3 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) (neu'r dyddiad y byddai'n cael ei gynnal heblaw am adran 5(5) o'r Ddeddf honno).

(5) Rhaid i adroddiad o dan yr adran hon gael ei gyhoeddi a'i osod gerbon y Cynulliad Cenedlaethol cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** A. 12 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 25(3)**

**I4** A. 12 mewn grym ar 5.10.2015 gan O.S. 2015/1680, **ergl. 2(f)**

## 13 Adroddiadau cynnydd blynyddol gan awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol

(1) Rhaid i awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Lleol gyhoeddi, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, adroddiad ar y cynnydd a wnaed ganddynt o ran cyflawni'r amcanion a bennir yn eu strategaeth leol.

(2) Pan fo awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Lleol wedi diwygio eu strategaeth yn ystod y cyfnod y mae'r adroddiad yn ymwneud ag ef, rhaid i'r adroddiad gynnwys esboniad o'r rhesymau dros y diwygiad.

(3) Rhaid i adroddiad o dan yr adran hon gael ei gyhoeddi cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** A. 13 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 25(3)**

**I6** A. 13 mewn grym ar 4.1.2016 gan O.S. 2015/2019, **ergl. 2(e)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, Croes Bennawd: Mesur perfformiad tuag at gyflawni diben y Ddeddf hon.